**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 29 Mawrth 2018 am 11.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | T J Hennegan | C A Holley |
| P R Hood-Williams | J W Jones | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| Cherrie Bija | | |

**Mynychwyr eraill**

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sian Bingham | Rheolwr Strategol Atal ac Ymyrryd yn Gynnar |
| Bethan Hopkins | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy):
Aelodau Cyfetholedig(wyr): Martyn Waygood
Mynychwyr eraill:

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Datganodd y Cynghorydd Mary Jones a'r Cynghorydd Jeff Jones gysylltiad personol am fod eu merch yn fydwraig yn Ysbyty Singleton ac roedd peth trafodaeth am fydwragedd a'u cyfranogaeth yn y Blynyddoedd Cynnar.
Ffurflenni a gwblhawyd.

2 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Dim

3 **Cofnodion**

Cymeradwywyd

4 **Ffrwd Waith y Blynyddoedd Cynnar**

- Daeth Sian Bingham a Gary Mahoney i gyflwyno Ffrwd Waith y Blynyddoedd Cynnar i'r panel
- Mae 3 oed yn oedran cymhwyso ar gyfer cefnogaeth gynnar
- Dyma gydweithrediad rhwng Bwrdd Dinas Iach a Thîm Marmot
- Ymagwedd gyffredinol yw hon, gydag ymyriad wedi'i dargedu lle y bo'n briodol
- Mae gan 'Dechrau Gorau Abertawe' dudalen Facebook a chyfrifon Twitter
- Cyflwynwyd sesiynau ymwybyddiaeth o weithlu fel bod staff wedi'u diweddaru o ran nodau ac amcanion y prosiect hwn
- Roedd digwyddiad '1,000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn' yn llwyddiannus iawn
- Cyhoeddwyd llyfrau sy'n edrych ar chwarae a bwyta'n iach
- Cyhoeddwyd llyfrau gweithgareddau hefyd ar gyfer plant
- Mae'r prosiectau wedi cael cysylltiad wyneb yn wyneb â thros 5,000 o bobl dros y flwyddyn ddiwethaf ac maent wedi bod yn rhan o ddigwyddiadau niferus sy'n edrych ar wahanol agweddau ar ofal plant
- Mae'r plant wedi bod yn cymryd rhan mewn creu gemau
- Mae'r llyfrgelloedd hefyd wedi bod yn cymryd rhan wrth hyrwyddo llyfrau magu plant a phrosiect y Blynyddoedd Cynnar yn gyffredinol
- Llywiwyd strategaeth y Blynyddoedd Cynnar gan archwiliad angen
- Nododd yr archwiliad y diffyg gwasanaethau ar gyfer pobl yn ystod beichiogrwydd ac ar gyfer plant hyd at 3 oed
- Mae dau brosiect mawr wedi'u creu;
  1. Tîm amlddisgyblaeth ac amlasiantaeth integredig yw Jig-so ar gyfer rhieni am y tro cyntaf dan 25 oed. Mae gan y prosiect ganlyniadau iechyd nodedig iawn sy'n gysylltiedig â rhoi'r gorau i smygu ac annog bwydo ar y fron
  2. Ariannwyd Prosiect Peilot Gofal Sylfaenol Blynyddoedd Cynnar Penderi gan rwydwaith Meddygfa Penderi. Mae'n canolbwyntio ar sgiliau magu plant a rhagnodi cymdeithasol. Ei nod yw mynd i'r afael â materion ac mae'n edrych ar atal iechyd meddwl. Mae'r gefnogaeth yn ddwys iawn
- Y cynllun ar gyfer y dyfodol yw cynyddu'r negeseuon presennol
- Mae'r adran am adeiladu ar gydweithrediad '1,000 diwrnod cyntaf'
- Bydd y camau nesaf yn cynnwys datblygu camau'r Cynllun Lles ar gyfer amcan 1: Dechrau Gorau
- Roedd trafodaethau ynghylch prosiect Tîm am y Teulu mewn ysgolion sydd wedi ennill Gwobr Gwasanaeth Cyhoeddus y Guardian
- Cytunodd y panel fod ymyrryd yn gynnar yn allweddol ar gyfer y gwaith hwn
- Mae angen i'r llwybr craidd gael ei wella a'i gefnogi gan y gwaith hwn - hynny yw, bydwragedd, ymwelwyr iechyd ac ysgolion
- Mae hyfforddiant rhaglen graidd ar gyfer ymwelwyr iechyd fel y gallant adnabod materion perthnasol yn haws
- O ran strategaeth atal iechyd meddwl, mae'r panel yn teimlo y dylai uwch-reolwyr y bwrdd iechyd fod yn ei llywio
- Mae pryder bod diffyg adnoddau o ran iechyd meddwl yn y BGC ar y cyfan
- Roedd y panel yn falch iawn bod cymaint o lwyddiant yn y prosiect a gallai'r rhain gael eu hadeiladu arnynt

## 5 Digwyddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Trosolwg

- Trafododd y Cynghorydd Mary Jones adroddiad trosolwg Swyddfa Archwilio Cymru
- Mae Abertawe eisoes yn cynnwys ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei swyddogaethau craffu
- Mae Abertawe hefyd yn ymgymryd â gwaith craffu cyn penderfynu sylweddol
- Disgwylir adborth o'r gynhadledd a fydd yn cael ei gyflwyno i'r panel

6 **Cynllun Gwaith 2017 - 2018.**

- Aethpwyd drwy'r cynllun gwaith. Cyfarfod olaf y flwyddyn ddinesig fydd y cyfarfod nesaf

Daeth y cyfarfod i ben am 12:00pm

**Cadeirydd**